Archaeoleg ar eich stepen drws

# Adnabod Crochenwaith Dechrau'r Canoloesoedd 1

Er nad oedd crochenwaith yn cael ei daflu ar olwynion yng Nghymru'r canoloesoedd, roedd yn werthfawr ac yn cael ei fewnforio'n helaeth. Drwy gydol 400-1070 OC bron, byddai nifer yng Nghymru'n dal i ddefnyddio llestri o bren a metel.

Dewch o hyd i ragor o ganllawiau archaeoleg neu cysylltwch ag archaeolegwyr yr Amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws neu ar Twitter @SF_Archaeology

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

amgueddfa cymru
national museum wales





## Crochenwaith Ymerodraeth Rhufain

Mae peth crochenwaith a fewnforiwyd o Fôr y Canoldir yn grochenwaith 'Diwedd Oes y Rhufeinaid'.

Cai jariau storio mawr o dde Groeg neu ogledd-ddwyrain Môr y Canoldir, o orllewin Twrci a gogledd Affrica yn cael eu mewnforio i Gymru a de-orllewin Prydain, mwy na thebyg o droad y 6ed ganrif OC.

Cafodd yr amffora LR1 a welir yma ei chanfod yn Ninas Powys, ger Caerdydd.



## Amffora diwedd Oes y Rhufeiniaid 1 (LR1)

Dyma ddolen amffora o'r enw LR1 o ddiwedd Oes y Rhufeiniaid. Cafodd ei chanfod yn Ninas Powys ger Caerdydd, ac mae'n bosib ei bod wedi'i chynhyrchu yn Cilicia, Cyprus neu Rhodos. Mae'r deunydd yn glai oren, gyda chribau llorweddol ar y corff. Mae'r crochenydd wedi 'tynnu'r ddolen, er mwyn creu'r cribau nodweddiadol.

Byddai amffora yn dal hylifau fel gwin neu olew, yn ogystal â nwyddau fel olifau.



## Amffora diwedd Oes y Rhufeiniaid 2 (LR2)

Mae amffora o ddiwedd Oes y Rhufeiniad o'r enw LR2 â nifer fawr o farciau ar yr arwyneb. Byddai'r crochenydd yn eu creu gyda chrib.

Gallant gael eu hadnabod o'i ffurfiau a'i deunyddiau, a byddent wedi eu cynhyrchu yn Argolid, Peloponesia, Chios a Kos (Groeg ar arfordir Môr y Canoldir) a rhannau o Dwrci o bosib.

Cafodd yr esiampl hon ei chanfod yn Ninas Powys, ger Caerdydd.



## Crochenwaith slip coch Phocaea

Mae slipwaith coch llyfn ar arwyneb y llestri bwrdd yma. Wedi 350 OC daeth i gymryd lle y terra sigillata coch oedd yn boblogaidd yn yr Ymerodraeth cyn hynny.

Cai slipwaith coch Phocaea ei gynhyrchu ar arfordir gorllewin Twrci (Asia Leiaf) a'i allforio i Iberia a Britannia rhwng tua 450 a 550 OC.

Mae anifeiliaid yn addurno'r bowlen hon o Dinas Powys. Byddai rhai â bandiau o riciadau o amgylch y rhimyn.



## Slipwaith Coch Affrica (ARS)

Cynhyrchwyd y llestri bwrdd yma yng ngorllewin Asia Leiaf a ger Carthag yng ngogledd Affrica. Cawsant eu mewnforio i Brydain yn y 5ed a'r 6ed ganrif.

Ymddangosodd y ffurfiau ychydig wedi oes slipwaith coch Phocaea, tua 525-575 OC.

Gall fod yn anodd iawn adnabod y crochenwaith yma, gan fod y ffurfiau yn debyg i grochenwaith diwedd Oes y Rhufeiniaid ym Mhrydain.